

## Gwybodaeth Cais Comisiwn

Mae Mis Celfyddydau Powys, Gŵyl Gomedï Machynlleth, Gŵyl y Gelli ac Oriel Davies wedi dod ynghyd i gynnis cyfleoedd gomisiynu cyffrous i artistiaid sy'n gweithio mewn unrhyw ddull sydd am greu gwaith arloesol ar raddfa fechan ar gyfer gofod allanol yng Nghymru yn 2014.

Mae'r cyfleoedd yma yn rhan o Fis Celfyddydau Powys ym Mai 2014, sy'n bwriadu tanio creu celfyddydau arloesol ac uchel-ael tu allan ym Mhowys.

Mae'r ddogfen yma yn cynnwys gwybodaeth am Fis Celfyddydau Powys a *phartneriaid digwyddiadau*, pun ai ydych yn gymwys i wneud cais, beth y gallwch ddisgwyl oddi wrthym, a'r hyn fyddwn ni'n disgwyl oddi wrthyich chi fel ymgeisydd.

Byddwch yn darganfod gwybodaeth benodol am yr hyn sydd angen i chi gynnwys yn eich cyflwyniad, felly darllenwch hyd y diwedd!

### Ynglŷn â Fforwm Celfyddydau Powys

Mae **Fforwm Celfyddydau Powys** yn sefydliad annibynnol ac yn elusen gofrestredig sy'n gweithio i ymuno a gwella gweithgareddau celfyddydol ar draws Powys. Amcanion y Fforwm yw:-

- I hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r celfyddydau ym Mhowys.
- I godi ymwybyddiaeth gyhoeddus a chyfranogiad yn y celfyddydau.
- I gyfathrebu safbwyntiau a gofynion unigolion a sefydliadau sydd yn ymglymedig yn y celfyddydau yn y sir gyda'i gilydd ac i'r gymuned ehangach.

### Ynglŷn â'r Partneriaid

Mae **Gŵyl Gomedï Machynlleth** yn ei 5ed blwyddyn ac mae'n gyflym wedi dod yn un o'r gwyliau comedi mwyaf blaenllaw gwahanol sydd wedi ei sefydlu yn y DU. Rydym yn rhoi pwyslais ar profi perfformiadau agos atoch, ac mewn lleoedd cyfarwydd a diddorol gwag gan ddefnyddio tref Machynlleth a'i holl adnoddau naturiol a hanesyddol. Rydym yn disgwyl tua 4000 o ymwelwyr o dros y DU ddod i'r Wyl dros Wyl y Banc mis Mai.

Sefydlwyd **Gŵyl y Gelli** o amgylch bwrdd y gegin ym 1987. Wedi ei lleoli yn y dref Gymraeg ar y ffin, Gelli Gandryll, yn harddwch syfrdanol Bannau Brycheiniog, mae'r wyl yn parhau i ddenu ysgrifenydd, gwneuthurwyr ffilm, comediwyr, gwleidyddion a cherddorion cyffrous i ysbrydoli, hyfrydu ac adlonni. Am 10 niwrnod ym Mai, mae'r Gelli yn llawn storiâu, syniadau, chwerthin a cherddoriaeth. Mae Gŵyl y Gelli yn gweithio mewn 11 gwlad ar draws 4 cyfandir. 2014 bydd ein pen-blwydd yn 27 mlwydd oed a bydd yn achlysur am ddathliad mawr.

Galeri celf gyfoes yw **Oriel Davies** yng nghalon Cymru. Oriel Davies yw'r safle celfyddydol gweledol mwyaf a mwyaf sylweddol yn y rhanbarth ac mae'n galeri allweddol yng Nghymru, yn dangos crefft a chelf genedlaethol a rhyngwladol sy'n torri tir.

### Ynglŷn â'r Comisiwn

Bydd digwyddiadau actif, arbrofol a mwynhaol, yn dod ag ymarferwyr at ei gilydd i greu gofod i gysylltu a chymryd rhan yn y digwyddiad. Bydd y comisiwn yn ffurfio rhan o uchafbwyntiau Mis Celfyddydau Powys ac yn rhan o raglen proffil uchel y rheiny sy'n cynnal y digwyddiad, gan ymateb i'w themâu trosfwaol, ethos a chynulleidfa.

Bwriad pob un o'r comisiynau yma yw darparu cyfle i artistiaid sydd wedi eu lleoli ym Mhowys i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau celfyddydol sydd ar y blaen, i gyflwyno syniadau arloesol ac sydd o ansawdd ar lwyfan cenedlaethol.

***Rydym yn edrych am syniadau sy'n syml a thrawiadol. Yn hanfodol fe fyddan nhw'n ymatebol i galon ac ethos y digwyddiad y rheiny sy'n cynnal, ac a fydd yn gweithio ar gyfer cynulleidfa hynod amrywiol a dwyieithog. Gall eich syniad amgylchynu unrhyw ddull (iau), a gall fod yn gyfyngedig o ran amser neu'n amgylchol drwy gydol y dydd. Bydd angen i'ch syniad ymofyn cynhyrchiad minimol a deunyddiau - lle'n bosib yn gynaliadwy ac yn ailgylchadwy.***

Mae hon yn gronfa gomisiwn ar raddfa fechan gyda briffiau unigol fel y dilynir:

### **Gŵyl Gomed Machynlleth**

Dyddiadau 2 - 4<sup>ydd</sup> Mai 2014

Cyllideb: £2000

Lleoliad: Machynlleth a'i hamgylchion.

Dymunwn i'r comisiwn ymateb i'r ŵyl sy'n digwydd yn y dref a'i bod yn ychwanegu i'r profiadau ar gyfer ymwelwyr y penwythnos hwnnw. Boed yn berfformiad neu'n osodiad byddwn yn hoffi iddo adlewyrchu natur wahanol yr Ŵyl a ffocysu ar brofiadau unigol.

### **Gŵyl y Gelli**

Dyddiadau o fewn 22<sup>ain</sup> Mai - 1<sup>af</sup> Mehefin 2014

Cyllideb: £2000

Lleoliad: Safle Caeau Gŵyl y Gelli, Gelli Gandryll <http://www.hayfestival.com/portal/index.aspx?skinid=1&localesetting=en-GB>

Hoffem os fydd y comisiwn yn ymateb i ac yn adlewyrchu natur yr ŵyl a'r gynulleidfa, a'i bod yn hwyl.

### **Oriel Davies**

Dyddiadau o fewn mis Mai 2014

Cyllideb: £2000

Lleoliad: y parc tu allan i Oriel Davies, Drenewydd

Lleolir Oriel Davies ynghanol tref y Drenewydd ac mae'n wynebu'r prif Barc yn uniongyrchol, lle caiff y comisiwn ei leoli. Rydym yn chwilio am gynnig comisiwn a fydd yn ymateb i'r Parc. Gall y cynigion fod mewn unrhyw gyfrwng (cerflun, gosodiad, sain, celf berfformiad, ffilm ac ati.) Mae union ddyddiadau'r comisiwn i'w penderfynu ond fe fydd yn cymryd lle o fewn Mai 2014, pan fydd Oriel Davies Agored 2014 hefyd yn dangos o fewn y Galeri.

**Mae Mis Celfyddydau Powys hefyd yn croesawu prosiectau newydd sydd eisoes â chefnogaeth yn bodoli, lle gall ein cronfeydd comisiwn cael eu hychwanegu at ffynonellau**

## eraill o ariannu.

Caiff gwobrau eu selio ar ansawdd y cynnig, cryfder y syniad, a'r gallu i sylweddoli'r syniad gan gydymffurfio gyda'r gyllideb; gan gymryd i ystyriaeth y goblygiadau technegol, costau gosod a deunyddiau. Rydym yn fwy na bodlon darparu cyngor ac adborth ym mhob rhan o'r broses cais.

## Y Broses Gomisiynu

Ni ddylai hyn fod yn fwy na 2 dudalen o ysgrifen (Nodwch os gwelwch yn dda, ni chaiff cynigion sydd yn hirach na dwy ochr o A4 eu hystyried).

Beth ddylech ei gynnwys -

- Y syniad - beth yr hoffech ei greu / gyflwyno
- Braslun o'r defnyddiau a'r broses y byddwch yn defnyddio er mwyn gwireddu'r syniad.
- Faint o gefnogaeth (technegol) o'r digwyddiad sy'n cynnal y peth yr ydych yn rhagweld bydd angen arnoch o ran cyflwyno'r comisiwn.
- Cyllideb frasgywir am wireddu'r syniad, nad yw'n fwy na'r swm penodol
- Arwyddocâd /perthnasedd eich lleoliad i'r syniad rydych yn ei gyflwyno
- Perthynas y syniad i'r cyhoedd ehangach; sut fydd y cyhoedd yn profi'r gwaith?
- Llinell amser arfaethedig yn nodi pa mor hir yr ydych yn dychmygu y bydd y syniad yn ei gymryd cyn cael ei wireddu
- Eich manylion cyswllt gan gynnwys enw, cyfeiriad, e-bost, ffôn a gwefan (os yn berthnasol)

Mae croeso i chi gynnwys y wybodaeth gefnogol yma (yn ychwanegol i'r ddwy ochr o A4 sydd eu hangen uwch):

- Cefnogaeth gweledol, lluniau, sgetshis, brasfodelau o sut yr ydych yn rhagweld bydd y syniad yn edrych. Ni ddylai hyn fod yn fwy nag un tudalen o A4. Esiamplau o waith blaenorol pwrpasol (os yn berthnasol). Ni ddylai hyn fod yn fwy nag un tudalen o A4.
- Bywgraffiad dim mwy na 200 o eiriau.

Rydym yn hapus i'ch helpu gydag unrhyw ymholiad. Os oes rhywbeth yn y briff yma nad yw'n glir i chi, neu nad oes gennych fawr o brofiad ohono, cofiwch gysylltu. Sarah Morton  
[pam@powysartsforum.org.uk](mailto:pam@powysartsforum.org.uk)

**DYDDIAD CAU:** Rhaid i Gynigion Creadigol ar gyfer comisiynau gyrraedd Mis Celfyddydau Powys erbyn 1<sup>af</sup> o Chwefror 2014

Mae disgwyl i ni gadarnhau'r tri chomisiwn hwyr yn Chwefror 2014.

### **Pwy sydd yn gallu gwneud cais?**

- Unigolyn neu grŵp/cydweithfa sydd ar hyn o bryd wedi ei selio ym Mhowys
- Prosiectau'r celfyddydau wedi eu selio ym Mhowys sy'n amgylchynu unrhyw ddull (iau) sy'n digwydd y tu allan

Os ydych chi'n ansicr am gymhwyster eich syniad, cysylltwch gyda: [pam@powysartsforum.org.uk](mailto:pam@powysartsforum.org.uk)

### **Termau & Amodau**

Drwy wneud cais am y comisiwn yma rydych yn cytuno:

- Bod dangosiad cyntaf o'ch gwaith i fod at eich digwyddiad dewisol fel rhan o Fis Celfyddydau Powys.
- I fod ar gael yn gyfan gwbl i ddangos eich gwaith yn ystod dyddiadau eich digwyddiad.
- I ddarparu tystiolaeth bod modd cyflwyno eich gwaith o fewn paramedrau'r prosiect a'r gyllideb sydd ar gael.
- I fod ar gael i wneud cyfweiliadau i'r wasg a'r cyfryngau ac yn fodlon cynorthwyo Articulture gydag ein hyrwyddo o'r prosiect lle bo'n briodol.



**HAY FESTIVAL.ORG**

AFRICA AMERICAS ASIA EUROPE MIDDLE EAST